# Tystiolaeth

# Tystiolaeth Cyngor ar Bopeth Cymru ar Fil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

***Ar gyfer: Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol***

Tŷ Quebec | Pont-y-Castell | 5-19 Heol y Bontfaen Dwyrain | Caerdydd | Ffôn: 03000 231 011 | Ffacs 03000 231 060 | www.citizensadvice.org.uk

## Ynghylch Cyngor ar Bopeth Cymru

Mae Cyngor ar Bopeth yn elusen annibynnol drwy Gymru a Lloegr sy'n gweithredu fel Cyngor ar Bopeth Cymru yng Nghymru gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd a'r Rhyl. Ceir ugain o swyddfeydd Cyngor ar Bopeth yng Nghymru sy'n aelodau o Cyngor ar Bopeth Cymru, sy'n cyflawni gwasanaethau o dros 375 lleoliad.

Dau nod gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yw:

- darparu'r cyngor y mae pobl ei angen ar gyfer y problemau y maen nhw'n eu hwynebu
- gwella'r polisïau a'r ymarferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae'r cyngor sy'n cael ei ddarparu gan wasanaeth Cyngor ar Bopeth yn rhad ac am ddim, annibynnol, cyfrinachol a diduedd, ac mae ar gael i bawb.

Mae'r rhan fwyaf o staff gwasanaethau Cyngor ar Bopeth yn wirfoddolwyr hyfforddedig. Mae pob aelod o'r staff cynghori, sy'n gyflogedig neu'n wirfoddolwyr, wedi cael eu hyfforddi mewn sgiliau rhoi cyngor ac maen nhw'n derbyn diweddariadau rheolaidd ar hyfforddiant penodol i bynciau arbenigol a mynediad at gefnogaeth arbennig sy'n seiliedig ar y pwnc.

Mae swyddfeydd lleol, o dan delerau aelodaeth Cyngor ar Bopeth, yn darparu cyngor craidd yn seiliedig ar dystysgrif o safonau ansawdd ar fudd-daliadau lles/credydau treth, dyled, tai, cynnyrch a gwasanaethau ariannol, materion defnyddwyr, cyflogaeth, gwahaniaethu, iechyd, mewnfudo a lloches, materion cyfreithiol a materion perthnasau a theuluol.

Mae gan wasanaeth Cyngor ar Bopeth gyfrifoldebau yn awr am gynrychioli defnyddwyr yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau Llywodraeth y DU ym maes defnyddwyr[1]. O 1 Ebrill 2014 mae hyn yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol i gynrychioli defnyddwyr y post ac ynni.

Rydym yn hapus i'n tystiolaeth fod ar gael i'r cyhoedd.

# Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn croesawu Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a'r modd niwtral o ran y rhywiau y mae'r Bil wedi'i enwi. Rydym yn cefnogi bwriad y polisi i wella ymateb y Sector Cyhoeddus tuag at drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac rydym yn credu bod y Bil yn cynnig cyfle arwyddocaol i Gymru arwain y ffordd yn y DU mewn lleihau ac atal trais a cham-drin domestig, a chryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr.

Yn ogystal, rydym yn croesawu bwriad y Bil i osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i greu a monitro cynllun trais a cham-drin ar sail rhywedd strategol (a gyfeirir ato fel TChRh drwy'r ddogfen hon), gan gynyddu ffocws ac atebolrwydd sefydliadol ar y mater hwn. Rydym yn credu bod gan y trydydd sector ran weithredol i'w chwarae yn natblygiad a chyflawniad y cynlluniau gweithredu hyn, ac rydym yn rhagweld ymgysylltiad Cyngor ar Bopeth. Rydym yn gofyn bod y canllawiau sy'n cael eu datblygu yn ystyried y dull rhwydweithiol tuag at ddarparu cyngor yn rhad ac am ddim yn unol ag adolygiad Gwasanaethau Cynghori Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cefnogi ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru tuag at gydraddoldeb, a chredwn y bydd codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o TChRh a'i effaith ar unigolion a'n cymunedau fel ei gilydd yn llesol i hyrwyddo cymdeithas well, drwy wneud cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr yn fwy gweladwy a hygyrch, a TChRh yn llai derbyniol yn gymdeithasol. Er mwyn i'r Bil wneud cyfraniad sylweddol er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol bod digon o adnoddau yn cael eu rhoi i gefnogi ei gyflawni er

[1] Ar 1af Ebrill 2013, trosglwyddwyd cyfrifoldeb ar gyfer cynrychiolaeth defnyddwyr o Llais Defnyddwyr i Wasanaeth Cyngor ar Bopeth (yn cynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru) yn dilyn adolygiad Llywodraeth y DU o faes y defnyddwyr.

mwyn sicrhau bod dioddefwyr TChRh yn gallu cael mynediad at y wybodaeth, y cyngor, y canllawiau, y gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae ganddyn nhw hawl ac angen iddyn nhw.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn credu bod cyngor priodol a diduedd sydd yn rhad ac am ddim yn gwneud cymdeithas yn well a rhaid cefnogi sefydliadau i barhau i gynnig cyngor yn rhad ac am ddim drwy amrediad o sianelau[2], fel ei fod ar gael i bawb sydd ei angen, pan maen nhw ei angen. Mae hyn yn hanfodol i helpu pobl wneud penderfyniadau cymhleth ynghylch y problemau y maen nhw'n eu hwynebu a chael yr hyder a'r cyfle i weithredu ar y materion sy'n achosi pryder iddyn nhw.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn galw am:

- Ganllawiau i argymell bod pawb sydd wedi cael eu cytundebu i gyflawni gwasanaethau gan y sector cyhoeddus wedi cael eu:
  - Hyfforddi i sicrhau bod eu hymarferion gwaith gyda'r rhai hynny sydd wedi cael profiad o TChRh yn briodol.
  - Hannog, drwy hyrwyddo polisïau enghreifftiol, i ddatblygu polisïau TChRh i gefnogi eu gweithluoedd a'u gwirfoddolwyr.
- Arweinyddiaeth gref gan Lywodraeth Cymru i sicrhau ymgysylltiad priodol â chyrff sector cyhoeddus heb eu datganoli gyda'r Bil, o ddylunio a gweithredu strategaethau cenedlaethol a lleol, at sicrhau bod hyfforddiant ar gael i'r holl staff yn y sector cyhoeddus sy'n cyflawni gwasanaethau yng Nghymru.
- Sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd:
  - Gwasanaethau cefnogi yn derbyn adnoddau digonol er mwyn rheoli unrhyw gynnydd mewn adnabod dioddefwyr TChRh sy'n chwilio am wybodaeth, cyngor, canllawiau a chefnogaeth bellach o ganlyniad i'r Bil.
  - Canlyniadau'r adolygiad cwricwlwm yn adlewyrchu ac yn cwrdd â'r angen yn ddigonol ar gyfer addysg mewn trais a cham-drin domestig, yn cynnwys cam-drin ariannol.

## *Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol: GOFYN a GWEITHREDU*

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn croesawu'r cynigion yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ac mae'n credu y bydd yr effaith yn bellgyrhaeddol, ac yn yr hirdymor, bydd yn darparu budd economaidd i Gymru drwy ymdrin â TChRh.  Rydym yn credu y bydd y lefel o dystiolaeth fanwl a geir yn y dogfennau ychwanegol a baratowyd ar gyfer y Bil yn ddefnyddiol i alluogi gwasanaethau i ddysgu a datblygu eu hymatebion i ymdrin â TChRh yng Nghymru.

O'n hymchwil mewnol ar TChRh (gweler isod am fanylion pellach os gwelwch yn dda) byddwn yn galw ar y canllawiau i fynd ymhellach ac argymell bod gofyn i Awdurdodau Lleol gynnig hyfforddiant lefel 2 i'r holl staff sy'n darparu gwybodaeth, cyngor neu ganllawiau ym meysydd budd-dal lles, dyled, cynhwysiant ariannol, cefnogaeth i denantiaid, a byw'n annibynnol. Yn yr un modd, byddwn yn argymell bod y canllawiau yn sicrhau bod darparwyr gwasanaeth sy'n gweithio yn y meysydd hyn ar ran cyrff cyhoeddus yn ymgymryd â hyfforddiant lefel 2 yn ogystal.  Rydym yn credu y bydd ehangu cyfranogiad pobl broffesiynol dros amser, drwy ganllawiau a strategaethau lleol, yn helpu i dynnu'r cyfrinachedd a'r cywilydd sy'n gysylltiedig â TChRh.

Rydym yn croesawu'r dull arfaethedig y bydd sefydliadau eraill, yn cynnwys y rhai hynny yn y trydydd sector, yn gallu cael mynediad at yr adnoddau er mwyn codi ymwybyddiaeth TChRh a datblygu ymatebion priodol. Gan ein bod yn ogystal yn datblygu e-ddysgu ac adnoddau eraill ar TChRh ar hyn o bryd er mwyn cefnogi cyflwyno Ymholiad Arferol GOFYN yn ein gwasanaethau (gweler isod am fanylion pellach os gwelwch yn dda), byddem yn ddiolchgar o'r cyfle i rannu dysgu gyda Llywodraeth

[2] Mae sianelau'n cyfeirio at y dull o gyflenwi cyngor, e.e. wyneb yn wyneb, ffôn neu ar-lein.

Cymru, yn cynnwys gwerthusiad o'r adnoddau newydd hyn, er mwyn sicrhau datblygu ymarfer gorau. Byddem yn gofyn y bydd yn cael ei egluro a yw'r hyfforddiant yn rhad ac am ddim i gyfranogwyr, ac a yw cost amser y bobl broffesiynol a enwebwyd sy'n gweithredu fel hyfforddwyr yn cael ei gynnwys mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Fel y nodwyd yn y dystiolaeth hon, mae Cyngor ar Bopeth yn symud tuag at OFYN am TChRh fel ymholiad arferol yn y broses cynghori. Mae GOFYN a GWEITHREDU yn argymell y GOFYNnir i bobl fel ymholiad wedi'i dargedu yn unig. Rydym yn datblygu'r dull o OFYN i bob cleient a oes yna arwyddion TChRh ai peidio, gan fod hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r mater yn ogystal â chaniatáu'r cyfle i bobl nad ydyn nhw'n arddangos arwyddion, symptomau nag awgrymiadau i ddatgelu. Rydym yn gofyn cwestiynau byr, syml uniongyrchol fel sydd yn cael ei argymell gan arbenigwyr TChRh ac sydd wedi'i roi ar brawf gan gynghorwyr a chleientiaid. Mae'r cwestiynau a awgrymir yn y ddogfen GOFYN a GWEITHREDU yn weddol hir a chymhleth, ac felly byddem yn croesawu'r cyfle i adolygu'r ymchwil a'r dystiolaeth sy'n arwain at argymell y rhain er mwyn sicrhau bod ein gwasanaeth yn seiliedig ar ymarfer gorau.

Yn ein profiad ni, ac fel y tynnwyd sylw ato yn ddogfen GOFYN a GWEITHREDU, mae'r arwyddion o gam-drin corfforol a rhywiol yn fwy tebygol o gael eu gweld neu'n hawdd i'w hadnabod nag ar gyfer unigolion sy'n profi cam-drin ariannol, lle nad yw'r arwyddion yn gorfforol amlwg efallai. Fel y nodwyd mewn ymchwil[3], mae'r mwyafrif o ddioddefwyr TChRh yn profi llawer o dactegau rheoli, gyda cham-drin ariannol yn un o'r rhai amlycaf, ac eto mae'n parhau'r un sydd wedi'i ymchwilio a'i ddeall lleiaf[4]. Ar hyn o bryd, mae Cyngor ar Bopeth yn ymgymryd â phrosiect ymchwil cenedlaethol sy'n anelu at fapio a deall: profiad ein cleientiaid o gam-drin ariannol; sut y mae cynghorwyr yn gweld ac yn ymdrin â hyn; a pha ymyriadau all weithio i wella sefyllfaoedd ein cleientiaid. Rydym yn gweithio er mwyn dadansoddi tystiolaeth bresennol y swyddfeydd yn ogystal â chasglu data newydd, a byddwn yn adrodd ar hyn ar ddechrau 2015.

O'n hymchwil cychwynnol, rydym yn credu y byddai'n llesol i gynnwys lefel uwch o fanylder ac enghreifftiau o gam-drin nad yw'n gorfforol a cham-drin nad yw'n rhywiol yn y ddogfen GOFYN a GWEITHREDU. Yn arbennig, rydym yn credu y dylai gwybodaeth a hyfforddiant ynghylch cam-drin ariannol a'i arwyddion, fel caledi ariannol a dyledion anesboniadwy, gael eu cynnwys, o gofio ei gyffredinolrwydd ymysg dioddefwyr cam-drin domestig. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gweithwyr sector cyhoeddus, a'r rhai hynny sy'n gweithio ar eu rhan, yn gallu adnabod y math hwn o gam-drin domestig a chefnogi'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio ganddo.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn galw am:

- Adnoddau 'Codi Ymwybyddiaeth' lefel 1 y Fframweithiau Hyfforddi Cenedlaethol fod ar gael yn rhad ac am ddim i'r holl gontractwyr a darparwyr gwasanaethau yn y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau negeseuon cyson.
    - Lle bo'n briodol, yr angen i gontractwyr yn y sector cyhoeddus ymgymryd â hyfforddiant lefel 2 mewn amgylcheddau sefydliadol cymysg er mwyn cefnogi cydweithio amlasiantaethol.
- Yr hyfforddiant i fod yn rhad ac am ddim i'r holl gyfranogwyr ac i gost amser gweithwyr proffesiynol enwebedig sy'n gweithredu fel hyfforddwyr gael ei gynnwys mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru.
- Lefel uwch o fanylder ac enghreifftiau o gam-drin nad yw'n gorfforol a cham-drin nad yw'n rhywiol yn y ddogfen GOFYN a GWEITHREDU a'r adnoddau hyfforddi sy'n cael eu datblygu i weithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel ei gilydd.

[3] Stark, E (2007) *Coercive Control: How Men Entrap Women in Personal Life*, Rhydychen: Oxford University Press.
[4] Sharpe, N (2008) *'What's yours is mine' The different forms of economic abuse and its impact on women and children experiencing domestic violence,* Llundain: Refuge

Yn ychwanegol, byddai Cyngor ar Bopeth Cymru yn croesawu'r cyfle i:

- Adolygu'r ymchwil a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu GOFYN a GWEITHREDU er mwyn sicrhau bod ein gwasanaeth yn seiliedig ar ymarfer gorau.
- Cefnogi'r datblygiad o wybodaeth bellach ar gam-drin ariannol yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a'r ddogfennaeth GOFYN a GWEITHREDU.

## Trais a Cham-drin ar sail Rhywedd: Ein Dull

### *Terminoleg*

Mae Cyngor ar Bopeth yn croesawu Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Rydym yn cefnogi bwriad y polisi o wella ymateb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru tuag at drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac rydym yn credu bod y Bil yn cynnig cyfle arwyddocaol i Gymru arwain y ffordd yn y DU i leihau ac atal trais a cham-drin domestig, a chryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr.

Mae Cyngor ar Bopeth, fel Llywodraeth Cymru, yn defnyddio'r term 'trais a cham-drin ar sail rhywedd' ac yn cefnogi enwi'r Bil yn niwtral o ran y rhywiau.

Rydym yn defnyddio TChRh fel term amgen yn lle Trais yn Erbyn Menywod a Merched, i ddisgrifio amrediad o fathau o drais sydd yn nodweddiadol wedi'u seilio mewn credoau ynghylch sut y dylai dynion a menywod ymddwyn, yn arbennig felly, mewn lleoliadau tebyg i berthnasau a theuluoedd. Felly, mae TChRh yn cynnwys trais a cham-drin domestig, trais rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail anrhydedd, trais, stelcio, aflonyddu a masnachu pobl. Yn ogystal, mae'r term TChRhD neu TChRh yn sicrhau ein bod yn cynnwys trais a cham-drin tuag at ddynion a bechgyn. Wrth ddefnyddio terminoleg niwtral o ran y rhywiau TChRh, mae Cyngor ar Bopeth yn cydnabod bod menywod yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan bob math o drais gan unigolyn agos.

Defnyddir y term ehangach yn ogystal yn ein codau cofnodi ac mewn mannau eraill er mwyn cydnabod y ffaith bod y swyddfeydd yn helpu cleientiaid ar yr holl faterion hynny. Ar gyfer swyddfeydd, cam-drin a/neu drais domestig yw'r mater trais a cham-drin ar sail rhywedd y maen nhw'n cynghori arno ac yn helpu gydag ef amlaf.

### *Cefnogi Staff a Gwirfoddolwyr*

Mae Cyngor ar Bopeth yn gweithredu polisi mewnol er mwyn cefnogi staff sy'n ddioddefwyr o TChRh. Mae hyn wedi bod yn gweithredu ers 2008 ac mae ar gael fel polisi enghreifftiol i'w fabwysiadu ar gyfer yr holl swyddfeydd sy'n aelodau. Yn ychwanegol at y polisi, mae cefnogaeth bellach ar gael i staff drwy Raglen Cynorthwyo Gweithwyr Cyngor ar Bopeth, *HM Assist*, sy'n rhoi mynediad at wasanaeth cynghori cwnsela, ariannol a chyfreithiol proffesiynol a chwbl gyfrinachol i holl weithwyr Cyngor ar Bopeth yn syth.

Fel y gwelwyd wrth fabwysiadu polisïau staff enghreifftiol gan Awdurdodau Lleol drwy Gymru, mae cael arweiniad strategol eglur yn gallu arwain at weithredu cyflym. Byddem yn croesawu anogaeth a hyrwyddiad pellach o ddefnyddio'r polisïau hyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer holl sefydliadau Cymru.

# Ymdrin â Thrais a Cham-drin ar sail Rhywedd: Dull Cydraddoldeb

Mae ein strategaeth '[Sefyll dros Gydraddoldeb](#)' (2012-15) yn datgan bod cydraddoldeb ac ansawdd yn mynd law yn llaw. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth allanol gynyddol bod canolbwyntio ar gydraddoldeb yn dod â buddion busnes, nid yn unig yn gysylltiedig â chyflawni amcanion cydraddoldeb, ond yn ogystal yn cyflawni gwelliannau ehangach mewn gwasanaethau, diwylliant sefydliadol ac effeithiolrwydd. Mae profiad Cyngor ar Bopeth o weithredu strategaethau cydraddoldeb blaenorol yn cadarnhau eu bod yn gwella ein hymarfer cyflogaeth, ein prosesau rhoi cyngor a'n mynediad a'n canlyniadau ar gyfer cleientiaid; ac yn grymuso ein gwaith ar bolisïau a'n gwaith ymgyrchu. Yn 'Sefyll dros Gydraddoldeb', y tri maes targed ar gyfer gweithredu yw:

1. **Herio gwahaniaethu drwy gynghori**
2. **Hyrwyddo cydraddoldeb drwy eiriolaeth**
3. **Gwerthfawrogi amrywiaeth drwy ein swyddogaethau o gyflogwr, asiantaeth wirfoddol a chontractwr**

O fewn maes targed un, *'Herio gwahaniaethu drwy gynghori'*, roedd trais ar sail rhywedd wedi nodi fel maes ar gyfer gweithredu. Roedd hyn oherwydd ymchwil mewnol a oedd yn dangos bod gwahaniaethu, trais ar sail casineb a rhywedd yn aml yn faterion cuddiedig a chydgysylltiedig sydd wrth wraidd y problemau mae cleientiaid yn eu cyflwyno mewn swyddfeydd. Yn yr un modd, o wybod bod o leiaf un mewn wyth o ferched bod blwyddyn yn profi cam-drin domestig, dylai Cyngor ar Bopeth ddisgwyl gweld oddeutu 150,000 o'n cleientiaid sy'n ferched bob blwyddyn o bosibl yn profi cam-drin domestig. Yn anad dim, mae swyddfeydd yn cefnogi llawer o filoedd o ferched (a dynion) gyda phroblemau dyled ac iechyd meddwl - y ddau yn cyfateb yn agos gyda digwyddiadau cam-drin domestig. Fodd bynnag, mae'r lefel o ddigwyddiadau cam-drin domestig sydd wedi cael eu cofnodi drwy Gymru a Lloegr wedi aros yn weddol sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf, yn amrywio o 12,000 i 13,000 (gyda 85% o'r rhain yn ferched).

## *Cynllun Peilot a Chyflwyno Graddol Ymholiad Arferol GOFYN o fewn Cyngor ar Bopeth*

Er mwyn symud ymlaen gyda'r maes targed a nodwyd o TChRh, cyflwynwyd y prosiect peilot 'ymholiad arferol GOFYN' yn 2013 gan Gyngor ar Bopeth. Roedd naw o swyddfeydd yn gysylltiedig drwy'r rhwydwaith, yn cynnwys dwy swyddfa yng Nghymru. Y sail resymegol ar gyfer y prosiect peilot oedd:

- Mae ymchwil yn dangos bod dioddefwyr a goroeswyr TChRh, yn cynnwys cam-drin domestig, yn fwy tebygol o ddatgelu profiadau o gam-drin os GOFYNnir iddyn nhw.
- Mae profiad TChRh yn debygol o waethygu'r ymholiadau hynny y mae cleientiaid yn ceisio cael help arnyn nhw yn y lle cyntaf, a thrwy hynny'n galluogi cynghorwyr yn y swyddfeydd i ddarparu'r wybodaeth a'r dewisiadau cyngor mwyaf perthnasol.
- Mae dadansoddiad o'n gwaith achos mewnol ar drais ar sail rhywedd yn dangos bod ein cleientiaid angen i swyddfeydd gymryd swyddogaeth bolisi er mwyn cael yr heddlu, tai ac awdurdodau eraill i gymryd trais ar sail rhywedd o ddifrif ac ymateb yn briodol.
- Drwy OFYN i'r ymholiad arferol ynghylch TChRh, gallai hyn fod y cam cyntaf tuag at dorri'r cyfrinachedd ynghylch TChRh.

Datblygwyd y cynllun peilot GOFYN gan gydweithwyr o Gyngor ar Bopeth a swyddfeydd (rhai gyda phrofiad sylweddol o TChRh, rhai gydag ychydig iawn er mwyn cael persbectif mwy cytbwys), Cymorth i Fenywod a'r sefydliad Yn Erbyn Trais a Cham-drin (ETC) a *Respect*, sefydliad sy'n gweithio gyda

dioddefwyr a throseddwyr gwrywaidd. Er mwyn hwyluso swyddfeydd, yn y lle cyntaf canolbwyntiodd y prosiect ar gynghori dau faes, yn hytrach nag ar bob cleient. Y meysydd oedd dyled a thai, ond yn ddiweddarach cafodd hyn ei ymestyn i gynnwys cyngor ar fudd-daliadau. Roedd GOFYN yn defnyddio nifer o wahanol gwestiynau, fel '*A fyddech chi'n teimlo'n ddiogel i drafod hyn gartref?*', yn ogystal â chwestiynau mwy uniongyrchol fel rhan o'r broses gynghori er mwyn rhoi cyfle i gleientiaid ddatgelu cam-drin yn weddol gynnar yn y broses gynghori.

Darganfu gwerthusiad annibynnol o'r peilot bod GOFYN yn '*fenter feiddgar ac arloesol a oedd yn gweithio . . . roedd canlyniadau'r prosiect yn gadarnhaol ysgubol . . . dylai gael ei ail-wneud yn genedlaethol*'. Prif ganfyddiadau'r prosiect oedd:

- allan o gyfanswm o 413 o gleientiaid a OFYNnwyd, datgelodd 112 neu 27% o gleientiaid TChRh yn y gorffennol neu'r presennol mewn ymateb i ymholiad arferol (roedd 5 o'r rhain yn ddynion ac roedd 107 yn ferched)
- roedd 7% o'r cleientiaid hyn yn profi TChRh ar hyn o bryd
- roedd 20% wedi datgelu TChRh yn y gorffennol
- er bod y mwyafrif o ddatgeliadau yn ymwneud â thrais a cham-drin domestig, roedd cleientiaid yn datgelu stelcio, priodas dan orfod a thrais ar sail "anrhydedd"
- datgelodd 1 cleient cyflawni trais/cam-drin domestig
- roedd 6 cleient (1.4%) wedi gwrthod ateb y cwestiwn YA GOFYN

Oherwydd llwyddiant y prosiect, cytunodd Tîm Gweithredol a Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth y bydd ymholiad arferol (YA) GOFYN yn cael ei gyflwyno drwy Gymru a Lloegr, gan ddechrau gyda chyfnod mabwysiadu cynnar gwirfoddol yn 2013/14.

Yn ystod y cyfnod gwirfoddol, bydd gofyn i'r holl gleientiaid *wyneb yn wyneb*, sy'n ddynion a merched, sydd gydag ymholiadau ynglŷn â dyledion a budd-daliadau, ateb **cwestiwn arferol** ynghylch a ydyn nhw'n profi TChRh, yn cynnwys cam-drin domestig, neu a ydyn nhw wedi'i brofi yn y gorffennol. Bydd swyddfeydd wedi cael eu hyfforddi a'u cefnogi er mwyn darparu cefnogaeth a chyngor priodol i gleientiaid sy'n deillio o unrhyw ddatgeliad.

Mae'r ffocws cychwynnol ar gleientiaid gydag ymholiadau ar ddyledion a budd-daliadau oherwydd y cyswllt cryf rhwng problemau ariannol a TChRh, yn ogystal â'r effaith posibl o gyflwyno taliad cartref unigol drwy Gredyd Cynhwysol.

Yna, dros gyfnod o sawl blwyddyn (2015-18) bydd y gwasanaeth yn symud – mewn cyfnodau sy'n caniatáu profi a datblygu pellach a mabwysiadu dull hyblyg - at y sefyllfa lle bydd YA GOFYN yn cael ei ddefnyddio gyda phob cleient gydag ymholiadau ar **ddyledion a budd-daliadau yn yr holl swyddfeydd drwy'r rhwydwaith a thrwy'r holl sianelau**. Ar y cychwyn, bydd YA GOFYN yn cael ei ddefnyddio'n unig mewn sesiynau Gateway wyneb yn wyneb[5] a sesiynau cynghori, ond yn ddiweddarach bydd y gwasanaeth yn profi ac yn gwerthuso drwy ddefnyddio YA GOFYN drwy gyfrwng sianelau gwahanol, fel y ffôn o 2016. Cynigir y bydd y gwasanaeth wedyn yn symud rhwng 2019 a 2021 i ddefnyddio YA GOFYN **ym mhob maes ymholiad yn yr holl swyddfeydd drwy Gymru a Lloegr**.

Mae Cyngor ar Bopeth yn ceisio annog a chefnogi'r holl swyddfeydd yng Nghymru i fabwysiadu'r cynllun yn gynnar mewn cydnabyddiaeth o'r Bil. Pan ysgrifennwyd y ddogfen hon, roedd 6 o swyddfeydd wedi cytuno i fod ynghlwm â hyn yn ystod y cyfnod hwn o gyflwyno GOFYN.

[5] Mae asesiad Gateway yn gyfweliad sylfaenol i ddarganfod y ffeithiau er mwyn darganfod pa wasanaeth y mae'r cleient ei angen, unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd yn syth, a'r camau nesaf.

# Trais a Cham-drin ar sail Rhywedd: Ystadegau

## *Ystadegau Cyngor ar Bopeth*

Mae holl swyddfeydd Cyngor ar Bopeth yn cofnodi eu cleientiaid ar gronfa ddata sengl. Yn y swyddfeydd bydd cofnod cleient sengl ar gyfer cleientiaid unigol, pa mor aml bynnag y maen nhw'n dychwelyd. Mae cofnod y cleient yn cynnwys proffil wybodaeth ar oed, rhyw, ethnigrwydd, anabledd, a nodweddion eraill yn cynnwys awdurdod lleol a ward. Mae pob rhyngweithiad gyda chleient (a elwir yn gysylltiad) yn cael ei gofnodi mewn ymholiad sengl, ac felly, gall ymholiad gynnwys cysylltiad sengl lle rhoddir cyngor syml, neu gysylltiadau lluosog ar gyfer achos parhaus cymhleth. Yn yr ymholiad, mae codau ar gyfer 'materion cynghori' yn cael eu cofnodi er mwyn adlewyrchu'r holl broblemau y mae'r cleient yn cael ei gynghori arnyn nhw yn yr ymholiad hwnnw. **Gall fod gan ymholiad sengl faterion cynghori lluosog, ac felly gellir cysylltu materion lluosog gyda chleient.**

Drwy Gymru a Lloegr, mae Cyngor ar Bopeth yn cefnogi rhwng 12,000 a 13,000 o bobl ynghylch cam-drin domestig y flwyddyn, ac mae oddeutu 11,000 yn ferched a 2,000 ohonyn nhw'n ddynion. Mae'r lefel hon wedi bod yn gymharol sefydlog dros y 5 mlynedd ddiwethaf, sy'n cyfateb i 3% o'r holl ymholiadau gan gleientiaid y flwyddyn.

Mae gwybodaeth ar gael ar ein gwefan ar gyfer y cyhoedd sy'n cynnwys gwahanol fathau o TChRh a'r dewisiadau sydd ar gael i ddioddefwyr, yn ogystal â rhoi manylion am sefydliadau sy'n darparu gwybodaeth a chefnogaeth arbenigol. Ar gyfer ein cynghorwyr, ac ar gyfer pawb o'r rhai hynny sy'n pwrcasu ein hadnodd *AdviserNet*[6], mae gwybodaeth bellach ar gael ar TChRh. Mae hwn wedi cael ei gynllunio i'w cefnogi nhw er mwyn adnabod TChRh a gofyn cwestiynau priodol i gasglu gwybodaeth er mwyn archwilio'r dewisiadau sydd ar gael gyda'r cleient a chynllunio'r camau nesaf ar eu cyfer.

## *Ystadegau Cyngor ar Bopeth Cymru*

Yn 2013/14, daeth dros 134,000 o bobl i swyddfeydd Cymru am gyngor ar dros 337,000 o faterion, gyda llawer mwy yn defnyddio ein gwasanaethau ar-lein. Yng Nghymru, cofnodwyd 325 o gleientiaid unigryw gyda 418 o faterion yn gysylltiedig â cham-drin domestig. O'r 325 o gleientiaid a dderbyniodd gymorth ar faterion cam-drin domestig gan swyddfeydd, roedd 84% ohonyn nhw'n fenywaidd ac 16% yn wrywaidd. Ar gyfartaledd, mae'r rhaniad rhwng cleientiaid sy'n fenywod a dynion a welir gan swyddfeydd yng Nghymru yn 55% o ferched a 45% o ddynion. Felly, mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol lle mae nifer sylweddol uwch o ferched yn ddioddefwyr trais a cham-drin domestig na dynion.

Mae'r mathau o faterion a gyflwynodd y cleientiaid wedi'u rhannu fel a ganlyn:

| Math o Fater | Nifer o Faterion sydd wedi derbyn Cyngor | Nifer o Gleientiaid Unigryw |
|---|---|---|
| **Tai (gwir ac o dan fygythiad) o ganlyniad i TChRh** | **30** | **30** |
| **TChRh** | **388** | **306** |
| **Cyfanswm** | **418** | **325**[7] |

[6] Defnyddir *AdviserNet* gan ddarparwyr cynghori annibynnol eraill ac Awdurdodau Lleol.
[7] Nodwch bod y gwahaniaeth mewn niferoedd yn dangos lle roedd y cleientiaid wedi'u cofnodi fel bod ganddyn nhw ymholiadau cam-drin domestig a thai.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cydnabod nad yw'r nifer o gleientiaid a gofnodwyd eu bod wedi profi cam-drin domestig fel 325 yn adlewyrchu'n ystadegol y nifer o achosion sy'n hysbys yn y boblogaeth yn gyffredinol, gan gyfeirio at y gwaith a wnaed gan Robinson ac eraill[8] drwy ddefnyddio data ar gyfer Cymru sydd wedi'i ddadgyfuno o ddata diweddaraf Arolwg Troseddu Prydain[9] (2011/12). Roedd hyn yn dangos bod merched yn profi dwywaith y lefelau o 'unrhyw gam-drin domestig' (11.1% o'i gymharu â 5.1% ar gyfer dynion) a byddai'n dangos y gallai'r swyddfeydd ddisgwyl fod wedi gweld hyd at oddeutu 10,000 o gleientiaid a oedd, o bosibl, yn profi cam-drin domestig yng Nghymru. Mae adrodd dros y tair blynedd diwethaf yn dangos bod trais domestig yn 3%, ar gyfartaledd, o'r holl faterion sy'n ymwneud â pherthnasau a 0.13% o gyfanswm mathau o ymholiadau drwy Gymru. Mae'r lefel isel o gleientiaid a gofnodwyd gyda cham-drin domestig fel problem iddyn nhw'n cael ei archwilio ymhellach yn yr adran nesaf.

## Rhwydwaith Swyddfeydd Cyngor ar Bopeth yng Nghymru

### *Tystiolaeth: Ymarfer yng Nghymru*

Er mwyn deall sut mae Cyngor ar Bopeth yn cefnogi cleientiaid sy'n cyflwyno problemau mewn perthynas â TChRh yng Nghymru, cynhaliwyd arolwg byr gennym yn yr 20 swyddfa yng Nghymru. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, cawsom ymatebion gan 15 o swyddfeydd. Dengys ein canfyddiadau o'r swyddfeydd hynny a ymatebodd i'r arolwg:

- Mae 4 swyddfa yn darparu allgymorth yn swyddfa eu sefydliad(au) TChRh lleol a/neu loches
  - Mae swyddfa arall ar hyn o bryd yn y broses o sefydlu allgymorth gyda'u sefydliad TChRh lleol, ac roedd nifer wedi cynnig allgymorth yn flaenorol, ond disodlwyd hyn gan broses atgyfeirio llwybr carlam oherwydd bod niferoedd isel angen cefnogaeth yn y sesiynau allgymorth
- mae 12 swyddfa wedi sefydlu gweithdrefnau atgyfeirio er mwyn anfon a derbyn cleientiaid o'u sefydliad(au) TChRh lleol
- Mae pob swyddfa wedi sefydlu prosesau i gynghorwyr eu dilyn os yw cleient yn cael ei adnabod ei fod mewn risg o gam-drin domestig a'u bod yn sicr y dylai cynghorwyr chwilio am gefnogaeth a chanllawiau gan eu goruchwyliwr i sefydlu dewisiadau'r cleient a sicrhau eu diogelwch.

Mae gan 9 swyddfa berthynas waith hirdymor gyda'u sefydliad TChRh arbenigol lleol. Rhoddodd y swyddfeydd hyn sylwadau ar y berthynas gadarnhaol sy'n eu galluogi i wneud a derbyn atgyfeiriadau cyflym, amserol a manwl gywir, gan sicrhau y gall y cleient gael mynediad at y gefnogaeth, y wybodaeth a'r cyngor y maen nhw eu hangen. Lle'r oedd y bartneriaeth wedi'i sefydlu dros nifer o flynyddoedd, roedd presenoldeb y ddau barti yng nghyfarfodydd a sesiynau hyfforddi'r parti arall yn gyffredin, ac roedd yn arwain at ddealltwriaeth well o waith y naill a'r llall, eu gallu a'u medrusrwydd i ymateb i bob unigolyn sy'n ceisio cael cefnogaeth.

Gellir gweld enghreifftiau o'r dull partneriaeth hwn yn Cyngor ar Bopeth (CaB) Caerdydd a'r Fro ac mae'r bartneriaeth hon gyda Chymorth i Fenywod Caerdydd wedi arwain at gyflwyno clinigau dyledion a budd-daliadau ar eu safle, yn ogystal â chyfranogi mewn cyfarfodydd rheolaidd y mae Cymorth i Fenywod Caerdydd yn eu cynnal gydag asiantaethau partner. Yn Cyngor ar Bopeth Torfaen, mae sesiynau allgymorth galw heibio yn cynnig cyngor cyffredinol yn Cymorth i Fenywod Torfaen a safleoedd Hafan Cymru fel ei gilydd, ac mae hyn wedi bod yn digwydd ers y pum mlynedd diwethaf. Bu arweinydd y gwaith hwn yn Nhorfaen yn dilyn Cwrs Cwnsela mewn Cam-drin Domestig

---

[8] Robinson, Brisbane, Farrar, Hardy, Jones, Pickles a Shepherd, *The Welsh Government's proposed 'Ending Violence Against Women and Domestic Abuse (Wales) Bill': Recommendations from the Task and Finish Group 2012.*
[9] Mae Arolwg Troseddu Prydain yn awr yn Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (ATCLl).

arbenigol ochr yn ochr â staff Cymorth i Fenywod, ac mae'n cyfranogi yn system ganolog ar gyfer atgyfeirio cam-drin domestig a gydlynir gan Gynghrair Gwirfoddol Torfaen. Mae'r system hon yn sicrhau bod y sefydliad arbenigol cywir yn ymateb i anghenion yr unigolyn er mwyn datrys eu problemau, a lle bod angen i fwy nag un sefydliad fod ynghlwm â hyn, eu bod yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cyrraedd y canlyniad gorau ar gyfer yr unigolyn dan sylw.

Gwnaethom ddarganfod nad oedd unrhyw swyddfeydd wedi cael cais i adrodd ffigyrau TChRh i'w cyllidwyr, na bod unrhyw un ohonyn nhw yn ymwybodol a oedd eu Cynllun Integredig Sengl (CIS) yn cyfeirio at ymdrin â cham-drin domestig fel blaenoriaeth. Felly, rydym yn croesawu bwriad y Bil o osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i greu a monitro cynllun TChRh strategol, gan gynyddu ffocws ac atebolrwydd y sefydliad wrth ymdrin â'r mater hwn. Rydym yn rhagweld ymglymiad gan y swyddfeydd wrth gyflawni'r cynlluniau strategol hyn drwy adnabod cleientiaid sydd mewn risg, neu'n profi cam-drin domestig, a darparu ymatebion perthnasol ar gyfer eu sefyllfaoedd, fel darparu cyngor budd-daliadau lles a dyled gan atgyfeirio neu arwain y ffordd at sefydliadau arbenigol.

Er mwyn archwilio'r bwlch sylweddol rhwng y nifer o gleientiaid a gofnodwyd fel eu bod yn profi TChRh a'r cyffredinolrwydd ystadegol o fewn y boblogaeth yn ei chyfanrwydd, roeddem yn ogystal wedi ceisio cael gwybodaeth bellach o swyddfeydd ynghylch cofnodi. Awgrymodd tystiolaeth anecdotaidd yn gyson:

- Fel gwasanaeth cynghori cyffredinol a holistaidd, anaml y bydd cleientiaid yn cyflwyno ymholiad TChRh fel y prif fater y maen nhw'n ceisio cyngor ar ei gyfer. Mae TChRh yn fwy tebygol o gael ei nodi fel mater cuddiedig yn ystod y broses gynghori sydd un ai'n cyfrannu at, neu sy'n ganlyniad o'r prif fater cynghori a gyflwynir.
- Mae sesiynau cynghori allgymorth mewn sefydliadau arbenigol TChRh yn cofnodi problemau'r cleientiaid y mae Cyngor ar Bopeth yn eu helpu i ddatrys, e.e. materion dyled neu fudd-dal. Ni fyddai TChRh yn cael ei gofnodi yn erbyn cofnod y cleient, na lleoliad yr allgymorth.

Rydym ni yn Cyngor ar Bopeth Cymru yn chwilio'n weithredol am ffyrdd i gefnogi ein haelodau er mwyn gwella eu hadnabyddiaeth o gleientiaid sy'n profi TChRh a chofnodi hyn yn fanwl gywir. Drwy archwilio ein prosesau mewnol yn agosach, rydym wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer cynghorwyr ar gofnodi cleientiaid sydd wedi profi TChRh, a dylai hyn, ymhen amser, arwain at gofnodi mwy manwl gywir a chorff mwy o wybodaeth o fewn Cyngor ar Bopeth sy'n gysylltiedig â'r maes hwn o'n gwaith.

Mae tystiolaeth anecdotaidd a gasglwyd o gyfweliadau a thrafodaethau grŵp gyda chynghorwyr cyffredinol ac arbenigol y rheng flaen (cyflogedig a gwirfoddol) wedi dangos nad yw Cyngor ar Bopeth yn cael ei weld fel sefydliad TChRh arbenigol. Felly, yn ychwanegol at y rhwystrau hysbys i ddatgelu sydd eisoes yn bodoli, efallai nad yw ein cleientiaid yn ein gweld fel sefydliad sydd yn gallu eu helpu gyda TChRh. Credwn y bydd hyn yn newid o ganlyniad i weithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel y mae mwy o sefydliadau yn dod yn ymwybodol o TChRh, adnabod dioddefwyr a'u darparu gyda gwybodaeth, cyngor a chanllawiau, yn ogystal â'u cyfeirio at asiantaethau priodol ar gyfer cefnogaeth bellach, fel Cyngor ar Bopeth. Rydym yn gwybod bod swyddfeydd Cyngor ar Bopeth yn cael eu gweld fel sefydliadau lleol y gellir ymddiried ynddyn nhw[10] ac rydym yn credu mai drwy ein gwaith mewnol a gwaith y Bil, y bydd swyddfeydd dros amser yn cael eu gweld fel sefydliadau sy'n gallu helpu dioddefwyr TChRh. Fel y nodwyd o'r blaen, mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn annog yn weithredol yr holl swyddfeydd yng Nghymru i fabwysiadu Ymholiad Arferol GOFYN yn gynnar. Yn ychwanegol at y gwaith hwn, rydym wedi ymroi i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o TChRh drwy ddarparu gwybodaeth sydd wedi'i thargedu ar gyfer swyddfeydd sy'n crynhoi'r adnoddau sydd ar gael i gynghorwyr.

Yn ogystal, dangosodd tystiolaeth anecdotaidd bod cleientiaid a oedd wedi profi TChRh o'r blaen yn cael eu gweld yn fwy aml gan weithwyr cynghori arbenigol ar ddyled a budd-daliadau ac:

---

[10] Mae 76% o bobl yn ymddiried gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddarparu cyngor yn rhad ac am ddim sy'n wirioneddol annibynnol a di-duedd. nfpSynergy, *Arolwg Brand Attributes*, 2010

- Mewn achosion o ddyled, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod cleientiaid yn chwilio am help gyda dyled un ai oherwydd: nad oedd ganddyn nhw incwm am gyfnod o amser o ganlyniad i ffoi rhag TChRh; neu oherwydd eu bod wedi cronni dyled o ganlyniad i berthynas gamdriniol.
- Mewn achosion budd-daliadau, mae'r dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod problemau iechyd meddwl cleientiaid yn gysylltiedig â phrofiadau TChRh yn y gorffennol mewn perthynas â'u hawliau budd-dal, a/neu'n effeithio ar eu gallu i gadw eu budd-daliadau.

Mae hyn yn cefnogi dadansoddiad mewnol o waith achos TChRh a wnaed cyn y prosiect GOFYN a'r ymchwil cychwynnol gan Cyngor ar Bopeth ar brofiadau ein cleientiaid o gam-drin ariannol.

## *Tystiolaeth: Hanes Achosion*

Yn ychwanegol at gofnodi problemau ein cleientiaid yn ystadegol, mae gan Cyngor ar Bopeth offeryn adalw ar gyfer tystiolaeth swyddfeydd sy'n storio straeon mwy manwl a gofnodwyd gan gynghorwyr ar ddeddfwriaeth ddiffygiol, camweinyddu a gwahaniaethu. Mae swyddfeydd yn defnyddio'r offeryn i dynnu sylw at achosion o bryder ar gyfer adolygu polisi cymdeithasol. Felly, maen nhw'n cael eu cofnodi fel eu bod yn cynrychioli problemau ehangach neu faterion sydd o bryder arbennig oherwydd amgylchiadau'r unigolion.

Drwy ddefnyddio'r system hon, nodwyd ffactorau cyfatebol drwy amrediad o faterion sy'n gysylltiedig â thrais a cham-drin domestig. Tra bod y materion a nodwyd yn amrywiol eu natur, roedd yr effeithiau a adroddwyd yn rhai o galedi ariannol a phryderon ynghylch cyfrinachedd y cleient yn bennaf. Dangosodd yr astudiaethau achos yn gyson bod problemau'r cleient yn cael eu hachosi gan gynrychiolwyr o sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn dangos diffyg dealltwriaeth neu empathi gyda sefyllfa'r cleient. Drwy ddehongli polisi'n gaeth, cynyddodd y sefydliadau galedi ariannol y cleient. Mae hyn yn cael ei ddangos yn yr astudiaeth achos isod. Dylid nodi yn ogystal mewn achosion lle'r oedd y cleient yn parhau i brofi cam-drin domestig, anaml y bu'r sefydliadau'n gweithredu i helpu'r cleientiaid i gael y gefnogaeth yr oedden nhw ei hangen a chyda hawl i'w chael.

### Astudiaeth Achos

Yn 2012, cofnododd swyddfa Caerdydd a'r Fro achos o fam sengl ifanc gydag un plentyn a oedd yn ddioddef o iselder a phryder o ganlyniad i'w cham-drin. Nid oedd ganddi unrhyw arian i brynu bwyd iddi'i hun a'i mab gan fod ei Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCC) wedi dod i ben. Daeth ei LCC i ben gan yr AGPh oherwydd na fynychodd ei adolygiad meddygol, a dywedodd bod hynny oherwydd ei hofn a'i phryder o fynychu lleoliadau newydd ac mewn ardaloedd (e.e. canol y dref) lle gallai weld cyflawnwr ei chamdriniaeth. Roedd hi eisoes wedi hysbysu ei hanallu i fynychu a'r ofn a oedd yn gysylltiedig â'r apwyntment, ond ni chynigiwyd unrhyw drefniadau amgen iddi hi, ac o ganlyniad, daeth ei budd-dal i ben.

Roedd y swyddfa yn gallu rhoi taleb bwyd i'r fenyw er mwyn ymdrin â'i phroblem uniongyrchol, a dechreuodd y swyddfa ar waith achos budd-dal lles er mwyn datrys y mater er mwyn sicrhau bod ei budd-dal yn cael ei adfer, gyda'r taliadau yn cael eu hôl-ddyddio.

Gellir ymdrin â'r materion hyn drwy hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Drwy ennill gwell dealltwriaeth, gallai'r cynrychiolwyr sydd ynghlwm ddatblygu mwy o fewnwelediad i amgylchiadau'r cleient, a fyddai'n eu galluogi i chwilio am wybodaeth, cyngor a chanllawiau pellach i gefnogi'r cleient. Byddai hyn yn galluogi'r cynrychiolwyr i gymryd camau cadarnhaol i helpu'r cleient, fel: eu hatgyfeirio

at sefydliad arbenigol perthnasol; neu chwilio am ganllawiau pellach i weld a allai'r amgylchiadau lleddfol effeithio ar ddehongliad y polisi dan sylw.

Gan hynny, mae Cyngor ar Bopeth yn gefnogol iawn o nodau polisi'r Bil o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a dyletswyddau'r sector Cyhoeddus. Rydym yn credu y gallai'r mesurau hyn gyfrannu at atal y materion a nodwyd rhag digwydd i bobl yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod llawer o'r achosion a gofnodwyd yn tynnu sylw at ymarfer cyrff cyhoeddus sydd heb eu datganoli (yn bennaf AGPh a CThEM) a gafodd effaith niweidiol ar y cleient. Gan hynny, bydd angen sicrhau bod cyrff cyhoeddus sydd heb eu datganoli wedi'u hymgysylltu yn y dull cydweithio amlasiantaethol ar bob lefel yn ogystal er mwyn datrys problemau pobl. Byddem yn croesawu arweinyddiaeth gref gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ymgysylltiad priodol o gyrff sector cyhoeddus sydd heb eu datganoli gyda'r Bil, o ddylunio a gweithredu strategaethau cenedlaethol a lleol at sicrhau bod hyfforddiant ar gael i staff sy'n cyflawni gwasanaethau yng Nghymru.

Mae'r astudiaeth achos isod yn tynnu sylw at sut mae staff gwybodus a hyfforddedig yn y sector cyhoeddus yn gallu helpu'r rhai hynny mewn sefyllfaoedd bregus o ganlyniad i'w cam-drin domestig. Yn ogystal, mae'n tynnu sylw at ba mor bwysig ydyw y bydd y rhai hynny sydd wedi'u cytundebu i gyflawni gwasanaethau gan y sector cyhoeddus angen ymgysylltu â'r codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant sy'n cael eu hyrwyddo gan y Bil er mwyn sicrhau bod pobl fregus yn cael eu trin yn briodol. Fel y nodwyd yn gynharach, mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn argymell bod Fframweithiau Hyfforddi Cenedlaethol lefel 1 'Codi Ymwybyddiaeth' ar gael i holl gontractwyr yn y sector cyhoeddus. Ymhellach, rydym yn gofyn am ofyniad i holl gontractwyr dderbyn hyfforddiant priodol er mwyn gweithio gyda'r rhai hynny sydd â phrofiad o TChRh mewn modd priodol, a'i fod yn cael ei gynnwys yn y canllawiau sector cyhoeddus.

## Astudiaeth Achos

Yn 2011, cofnododd swyddfa Torfaen yng Nghwmbran achos mam sengl ifanc gydag un plentyn a oedd wedi dianc oddi wrth drais domestig ac roedd yn awr yn byw mewn tŷ cymdeithasol ar ôl derbyn cymorth brys gan Cymorth i Ferched Torfaen. Roedd ei chynbartner treisgar wedi'i gorfodi i roi'r holl filiau tŷ yn ei henw ei hun, yn cynnwys Treth y Cyngor (er bod hyn yn ddyled ar y cyd) ac roedd dyledion wedi cronni. Arhosodd y cleient yn yr ardal ac mae'n derbyn budd-daliadau, ac felly roedd modd ei lleoli ar gyfer dyled Treth y Cyngor. Gadawodd y cyn-bartner yr ardal ac ni ellir ei leoli am ei gyfraniadau. Derbyniodd dyled Treth y Cyngor orchymyn dyled a arweiniodd at benodi beilïaid. Roedd y beilïaid yn bygwth dod i gartref y cleient a chymryd dillad y plentyn a'r dodrefn, gan achosi trallod i'r ferch ifanc fregus a ddywedodd ei bod ofn bod gartref ar ei phen ei hun. Nododd y cleient bod ei hymdrechion i esbonio ei sefyllfa a thrafod gyda'r beilïaid yn aflwyddiannus.

Cysylltodd y swyddfa â Chyngor Torfaen a weithredodd yn gyflym i ddatrys y sefyllfa, cytuno ar y swm a'r trefniadau talu, a chysylltu â'r beilïaid er mwyn dod â'r holl weithredu i ben yn syth.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Elle McNeil
Policy Officer / Swyddog Polisi
Citizens Advice / Cyngor ar Bopeth
Tel / Ffôn 03000 231 393 / 07773 281368
Nodwch fy mod yn gweithio'n rhan-amser os gwelwch yn dda. Fy nyddiau gweithio arferol yw dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher.